

PWYLLGOR PERSONÉL

4 Mawrth 2015

Yn bresrnnol: Mr A Archer, Mrs G Hayward, y Cynghorwyr DGM James, O James, PJ Morgan a D Rees, a Mr AE Sangster.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.05pm – 1.45pm)

1. Penodi Cadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi Mr AE Sangster yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn.

2. Penodi Is-gadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi Mr A Archer yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Cynghorwyr S Hudson a Mrs L Jenkins.

4. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

5. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2010 a 20 Gorffennaf 2011 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2010 a 20 Gorffennaf 2011.

6. Y Fforwm Gweithwyr – Adroddiad am gyfarfod

Cyflwynwyd yr adroddiad am gyfarfod y Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015 i'r Aelodau i'w ystyried.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r adroddiad am gyfarfod y Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015.

7. Polisi newydd yn y gweithle (Cam-drin domestig)

Rhoddodd y Rheolwr Personél gefndir y gwaith o baratoi polisi newydd yn y gweithle ar gam-drin domestig. Roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach yn sgil ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ("Pa mor deg yw Cymru?" Mawrth 2011), ac un o'r heriau mwyaf a ddeilliodd o'r dystiolaeth oedd yr angen i leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.



Diben y polisi oedd codi ymwybyddiaeth am y broblem ac i annog unrhyw aelod o staff ddod i gael gair os oeddent yn cael trafferthion. Dywedodd y Rheolwr Personél fod rôl gan reolwyr hefyd, ac roedd y polisi yn rhoi sylfaen iddynt hwy a'u cydweithwyr fel y gallent gymryd camau i gefnogi. Aeth rhagddi i ddweud bod y polisi drafft wedi esblygu ychydig yn sgil trafodaethau yn y Grŵp Cynrychiolwyr Staff, y Tîm Arweinyddiaeth, a'r Fforwm Gweithwyr.

Croesawodd yr Aelodau'r polisi, er y gwnaed y pwynt fod dynion hefyd yn dioddef cam-drin domestig. Atebodd y Rheolwr Personél fod yr ystadegau'n dangos fod dwywaith gymaint o fenywod yn dioddef cam-drin, a bod 75% o'r menywod hynny'n cael eu targedu yn y gwaith. Aeth rhagddi i ddweud fod y polisi'n niwtral o ran rhywedd, oherwydd gellid disgwyl i bob gweithiwr gael cefnogaeth, boed yn fenywod, yn ddynion, yn hoyw, yn anabl ac ati.

Gofynnodd yr Aelodau sut y bwriedir cynyddu ymwybyddiaeth y staff am y polisi. Atebodd y Rheolwr Personél mai'r cam nesaf fyddai rhoi gwybod i'r Arweinwyr Tîm am y polisi; hwy oedd y cam cyntaf yn y llinell reoli, ac roedd iddynt ran allweddol yn hyn. Roedd o'r farn bod gan yr Awdurdod stwythur cefnogol eisoes, ond byddai'r polisi yn darparu canllawiau ychwanegol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi newydd ar gyfer y gweithle - *Trais yn Erbryn Menywod a Cham-drin Domestig.*

8. Polisi lechyd a Diogelwch diwygiedig

Dyweddodd y Rheolwr Personél fod gofyn i'r Awdurdod gyhoeddi polisi lechyd a Diogelwch. Rordd y ddogfen bresennol wedi'i chymeradwyo yn 2005, er ei bod wedi cael ei diweddarau sawl gwaith ers hynny.

Roedd y polisi diwygiedig a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn seiliedig ar broses gylchol yr Awdurdod lechyd a Diogelwch, sef "cynllunio, gwneud, gwirio, gweithredu", a oedd yn sicrhau bod arweinyddiaeth uwch ac atebolrwydd ar gyfer rheoli lechyd a Diogelwch. Roedd pwyslais hefyd ar graffu'n effeithiol ac yn amserol ar berfformiad lechyd a Diogelwch. Roedd y ddogfen yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r holl staff ar bob lefel o'r Awdurdod o ran gallu i weithio'n ddiogel.

Roedd y polisi diwygiedig drafft eisoes wedi cael ei ystyried gan Grŵp lechyd a Diogelwch yr Awdurdod, y Grŵp Cynrychiolwyr Staff, y Tîm Arweinyddiaeth, a'r Fforwm Gweithwyr. Roedd pob grŵp wedi croesawu'r polisi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi lechyd a Diogelwch diwygiedig.



9. Y Cyflog Byw

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Weithredwr fod gofyn i'r Awdurdod, fel cyflogwr, dalu o leiaf yr isafswm cyflog i'w staff. Fodd bynnag, roedd Canolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol Prifysgol Loughborough wedi cyfrifo, er mwyn rhoi cyfle i deuluoedd ddarparu ar eu cyfer hwy eu hunain, fod angen cyfradd o £7.85 yr awr (y Cyflog Byw).

Roedd Llywodraeth Cymru yn annog pob cyflogwr i dalu'r Cyflog Byw, ac roedd y papur trafod a oedd yn gysylltiedig â'r adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn nodi'r ystyriaethau a oedd yn gysylltiedig â'i gymhwyso i'r gweithwyr hynny a oedd yn cael llai na £7.85 yr awr.

Roedd mwyafrif yr Aelodau o blaid cyflwyno'r Cyflog Byw, ond gofynnwyd a oedd y gost wedi'i chynnwys yn y gyllideb a gymeradwywyd yn ddiweddar. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod.

Dywedodd un Aelod fod cymhwyso'r Cyflog Byw yn ddyhead gwych, ond roedd o'r farn, yn yr amgylchiadau presennol, ei fod yn fater o flaenoriaethau, ac roedd o'r farn fod blaenoriaethau pwysicach ar hyn o bryd.

PENDEFYNWYD cyflwyno adroddiad ar y Cyflog Byw i gyfarfod nesaf Awdurdod y Parc Cenedlaethol gydag argymhelliad fod y Cyflog Byw yn cael ei gyflwyno.

(Pleidleisiodd Mr AE Sangster yn erbyn y penderfyniad uchod.)

